

CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S WEEKLY NEWSLETTER

WYTHNOS YN DIWEDDU/WEEK ENDING:

20.11.20

GWAITH ADEILADU – BUILDING WORK

Mae'r gwaith adeiladu wedi troi yn realiti gyda'r adeiladwyr wedi symud i mewn ar ran o gae'r ysgol, ac yn darparu ffordd ar gyfer eu safle. Maent wrthi yn gweithio ar y maes parcio newydd ym mhen ucha'r cae erbyn hyn.

Rwyn siwr y sylweddolwch fod hwn yn gyfnod newydd i ni i gyd, a'r gweithdrefnau ar ddechrau a diwedd y dydd yn gorfod newid ar fyr rybudd ambell dro. Ar hyn o bryd, rydym yn treialu gwahanol drefniadau er mwyn cael yr ateb gorau i'r sefyllfa sy'n ein hwynebu. Gwerthfawrogwn eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad i unrhyw newidiadau fydd yn cael eu gwneud yn dilyn adolygiad o'n sefyllfa.

The building work has turned into reality with builders moving on to part of the school field, and preparing a roadway to their compound. They are now working on the new car park at the top of the school field.

I'm sure that you understand that this is a new situation for us all, and the procedures at the beginning and end of the day have to be changed at short notice at times. At present, we are trialling various arrangements so that we can find the best solution to the situation that faces us at present. We appreciate your support and co-operation to any changes that will need to be made following any monitoring of the situation.

TREFNIADAU DIWEDDARAF – LATEST ARRANGEMENTS.

Mae llythyr wedi'i anfon atoch yn gynharach ar yr app parthed rhai newidiadau i'n trefniadau o **ddydd Llun nesaf, Tachwedd 23ain. ymlaen.** Fel y nodwyd yn y llythyr hwnnw, bydd y cyfan yn cael ei fonitro'n ofalus gennym, ac unrhyw addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud fel y bydd gofyn i hynny ddigwydd.

*A letter has been sent on the app to you earlier this afternoon regarding some adaptations to our arrangements as from **next Monday, November 23rd. onwards.** As was noted in that letter, the arrangements will be closely monitored by us, and any adaptations will be made if these need to be done.*

CYFYNGIADAU COVID RESTRICTIONS.

Carem atgoffa pawb i sicrhau mai UN AELOD O BOB TEULU ddylai fod gyda'u plant ar ddechrau a diwedd y dydd, er mwyn cyfyngu cymaint ag sydd yn ymarferol bosib ar y niferoedd sy'n dod ar dir ac i gyffiniau'r ysgol.

We wish to remind everyone to ensure that ONE MEMBER OF EACH FAMILY is to accompany their children at the beginning and end of the school day, so that we can restrict as much as possible on the number of people who come on the school grounds and its perimeter at any time.

GWAITH CARTREF YR UNEDAU DAN 7 – UNDER 7'S UNITS HOMEWORK.

Er gwybodaeth i rieni y Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 mae'r tasgau gwaith cartref am weddill y tymor wedi mynd yn fyw ar SeeSaw y pnawn 'ma. Gobeithio y gwnaiff y disgyblion hyn fwynhau cyflawni'r tasgau a osodwyd ar eu cyfer.

For the information of the Reception, Years 1 and 2 parents, the homework tasks for the rest of this term have been uploaded onto SeeSaw this afternoon. It is hoped that these pupils will enjoy completing the tasks set for them.

DIWRNOD Y CELTIAID – CELTS DAY.

Fel rhan o weithgareddau'r dosbarthiadau hynny, cynhelir Diwrnod Celtaidd i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 **ddydd Gwener nesaf, Tachwedd 27ain.** Edrychir ymlaen at weld y disgyblion hyn yn dod i'r ysgol wedi'u gwisgo fel Celtiaid, ac y byddant yn mwynhau gwneud amrywiaeth o weithgareddau yn gysylltiedig â'r thema honno yn ystod y dydd.

*As part of the class activities for those classes, Years 3 and 4 pupils will participate in a Celtic Day **next Friday, November 27th.** We shall look forward to seeing those pupils dressed as Celts and participating in activities based on the theme during the day.*

DOSBARTH DERBYN MEDI 2021 SEPTEMBER RECEPTION CLASS.

Rhag ofn nad ydych eisoes wedi gwneud, atgoffir rhieni ein disgyblion Meithrin presennol, mai'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais ar gyfer y Derbyn ym mis Medi 2021 yw heddiw, dydd Gwener, Tachwedd 20fed.

In case you haven't done so, our present Nursery pupils' parents are reminded that today, Friday, November 20th. is the closing date to register the children for the September 2021 Reception class.



Fel y gwelwch, mae'r Cylchlythyr yn fyr iawn yr wythnos yma, ond rwyf am barhau i'w anfon yn wythnosol er mwyn sicrhau bod y ddolen gyswllt yn cael ei chadw er gwaetha'r sefyllfa bresennol y cawn ein hunain ynddi.

Unwaith eto yr wythnos hon, diolchir i chi am eich cydweithrediad parod bob amser.

As you can see, the Newsletter is very short this week, but I will continue to send it on a weekly basis in order to ensure that the contact chain is maintained throughout the difficult time that we find ourselves in at present.

Once again this week, you are thanked for your co-operation at all times.

**MWYNHEWCH Y PENWYTHNOS A CHADWCH YN DDIOGEL – ENJOY THE WEEK END AND
KEEP SAFE!**